# Pump y Pasg

## 1.

‘Hosana, fab Dafydd!’
Prynhawn llawn llawenydd
Yn hen ddinas Dafydd,
A’r holl hewlydd hir
Yn orlawn o fwrlwm,
Iesu yw’r rheswm,
Dewch, bawb, gyda’ch offrwm,
Mae cyffro’n y tir.

Jerwsalem,
Mi glywaist gân
Dy bobl oll gan gwaith o’r bla’n,
Ond hwn sy heddi ar wahân,
Mae’r brenin ’ma’n
Wahanol.

Nid ar farch mae hwn, na, nid fe,
Ond ar asyn,
Ac o’r dre,
O bell iawn ac o bob lle,
I’w nabod e
Daw’r bobol.